



**CYNGOR BWRDEISTREF SIROL**  
**RHONDDA CYNON TAF**  
**COUNTY BOROUGH COUNCIL**

**GWŶS I GYFARFOD PWYLLGOR**

C Hanagan  
Cyfarwyddwr Gwasanaeth y Gwasanaethau Democrataidd a Chyfathrebu  
Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf  
Y Pafiliynau  
Parc Hen Lofa'r Cambrian  
Cwm Clydach, CF40 2XX

Dolen gyswllt: Hannah Williams - Uned Busnes y Cyngor - Gwasanaethau Llywodraethol  
(01443 424062)

Bydd cyfarfod o'r **Pwyllgor Cynllunio a Datblygu** yn cael ei gynnal yn **Siambwr y Cyngor, Y Pafiliynau, Parc Hen Lofa'r Cambrian, Cwm Clydach, Tonypanydy, CF40 2XX** ar **DYDD IAU, 5ED MEDI, 2019** am **5.00 PM**.

MAE MODD I AELODAU NAD YDYN NHW'N AELODAU O'R PWYLLGOR AC AELODAU O'R CYHOEDD OFYN I ANNERCH Y PWYLLGOR YN YSTOD Y CYFARFOD SY'N YMWNEUD Â'R MATER SYDD WEDI'I NODI. RYDYN NI'N GOFYN EICH BOD CHI'N RHOI GWYBOD AM EICH BWRIAD I SIARAD DRWY E-BOSTIO **[GWASANAETHAUCYNLLUNIO@RCTCBC.GOV.UK](mailto:GWASANAETHAUCYNLLUNIO@RCTCBC.GOV.UK)** ERBYN 5PM AR DYDD MAWRTH, 3 MEDI 2019, GAN NODI A FYDDWCH CHI'N SIARAD YN GYMRAEG NEU'N SAESNEG.

MAE'N BOSIB BYDD TREFN YR AGENDA'N NEWID ER MWYN HWYLUSO BUSNES Y PWYLLGOR.

**AGENDA**

**Tudalennau**

**1. DATGAN BUDDIANT**

Derbyn datganiadau o fuddiannau personol gan Aelodau, yn unol â gofynion y Cod Ymddygiad.

**Noder:**

1. Mae gofyn i Aelodau ddatgan rhif a phwnc yr agendwm mae eu buddiant yn ymwneud ag ef a mynegi natur y buddiant personol hwnnw; a
2. Lle bo Aelodau'n ymneilltuo o'r cyfarfod o ganlyniad i ddatgelu buddiant sy'n rhagfarnu, mae **rhaid** iddyn nhw roi gwybod i'r Cadeirydd pan fyddan nhw'n gadael.

## **2. DEDDF HAWLIAU DYNOL 1998 A PHENDERFYNIADAU RHEOLI DATBLYGU**

Nodi y dylai Aelodau o'r Pwyllgor, wrth benderfynu materion rheoli datblygu ger eu bron, roi sylw i'r Cynllun Datblygu ac, i'r graddau y bo hynny yn berthnasol, i unrhyw ystyriaethau perthnasol eraill. Rhaid i Aelodau, wrth ddod i benderfyniadau, sicrhau nad ydyn nhw'n gweithredu mewn modd sy'n anghyson â'r Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol fel y'i hymgorfforwyd mewn deddfwriaeth gan Ddeddf Hawliau Dynol 1998.

## **3. DEDDF LLESIANT CENEDLAETHAU'R DYFODOL (CYMRU) 2015**

Nodi bod Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn gosod dyletswydd ar gyrff cyhoeddus i gynnal datblygiadau cynaliadwy yn unol â'r egwyddor datblygu cynaliadwy, ac i weithredu mewn modd sy'n anelu at sicrhau y caiff anghenion y presennol eu diwallu heb amharu ar allu cenedlaethau'r dyfodol i ddiwallu eu hanghenion hwythau.

## **4. COFNODION**

Cadarnhau cofnodion o gyfarfod y Pwyllgor Cynllunio a Datblygu a gynhaliwyd ar 18 Gorffennaf 2019.

5 - 8

## **CEISIADAU A ARGYMHELLIR AR GYFER EU CYMERADWYO GAN Y CYFARWYDDWR MATERION FFYNIANT A DATBLYGU**

### **5. CAIS: 19/0425**

Newid defnydd rhan o garej i fusnes twtio cŵn. (Derbyniwyd cynllun parcio ychwanegol 05/07/19), 64 Ffordd-y-Dolau, Llanharan, Pont-y-clun.

9 - 16

### **6. CAIS: 19/0501**

Cynllun amlinellol (pob mater wedi'i gadw) ar gyfer eiddo sengl. (Derbyniwyd Cynlluniau Diwygiedig a Datganiad Dylunio a Mynediad 09/08/19), 1 Tylacoch, Llanhari, Pont-y-clun.

17 - 26

### **7. CAIS: 19/0670**

Adeiladu cofeb, tir yn Heol y Parc, Cwm-parc, Treorci.

27 - 36

### **8. CAIS: 19/0735**

Estyniad a gwelliannau i'r maes parcio gorlif presennol yng nghefn y safle. Canolfan Hamdden Rhondda Fach, East Street, Tylorstown, Glynrhedynog.

37 - 44

## **CEISIADAU A ARGYMHELLIR AR GYFER EU GWRTHOD GAN Y CYFARWYDDWR MATERION FFYNIANT A DATBLYGU**

### **9. CAIS: 19/0599**

Gosod systemau coginio yn y siop gyffredinol bresennol ar gyfer paratoi a gwerthu cynhyrchion pizza poeth (newid defnydd rhan o'r uned o A1 i A3) Uned 1 Canolfan Siopa, Cardigan Close, Ton-teg, Pontypridd.

45 - 52

## **ADRODDIAD ER GWYBODAETH**

### **10. GWYBODAETH I AELODAU SY'N YMWNEUD Â'R CAMAU GWEITHREDU WEDI'U CYMRYD O DAN BWERAU DIRPRWYEDIG**

Rhoi gwybod i Aelodau am y canlynol, ar gyfer y cyfnod 05/08/2019 - 22/08/2019:

Penderfyniadau Cynllunio a Gorfodi – Apeliadau a Dderbyniwyd;  
Penderfyniadau Dirprwyedig – Ceisiadau wedi'u cymeradwyo a'u gwrthod gyda rhesymau;  
Trosolwg o Achosion Gorfodi;  
Phenderfyniadau Gorfodi Dirprwyedig.

53 - 68

### **11. MATERION BRYD**

Trafod unrhyw faterion sydd, yn ôl doethineb y Cadeirydd, yn rhai bryd yng ngoleuni amgylchiadau arbennig.

## **Cyfarwyddwr Gwasanaeth y Gwasanaethau Democraidd a Chyfathrebu**

### **Cylchrediad:-**

#### **Aelodau o'r Pwyllgor Cynllunio a Datblygu:**

Cadeirydd ac Is-gadeirydd y Pwyllgor Materion Rheoli Datblygu  
(Y Cynghorydd S Rees a Y Cynghorydd G Caple)

Y Cynghorydd J Bonetto, Y Cynghorydd P Jarman, Y Cynghorydd D Grehan,  
Y Cynghorydd G Hughes, Y Cynghorydd J Williams, Y Cynghorydd S Powell,  
Y Cynghorydd W Owen, Y Cynghorydd R Yeo ac Y Cynghorydd D Williams

Cyfarwyddwr Gwasanaeth y Gwasanaethau Democraidd a Chyfathrebu  
Cyfarwyddwr Materion Ffyniant a Datblygu  
Rheolwr Gwasanaethau Datblygu  
Rheolwr Gwasanaethau Datblygu  
Rheolwr Datblygu Priffyrdd a Mabwysiadu Priffyrdd  
Pennaeth y Gwasanaethau Cyfreithiol